Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	29 Medi 2022
Aelod Arweiniol / Swyddog	Rhys Thomas – Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau / David Lorey – Swyddog Arweiniol Eiddo Corfforaethol a'r Stoc Tai
Awdur yr adroddiad	Katrina Allen
Teitl	Cam 2 Gwaith Ôl-Osod Tai Cymdeithasol – Rhydwen Drive, y Rhyl

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. I geisio cymeradwyaeth i fwrw ymlaen i ddyfarnu'r contract gwaith ail-osod ynni i Sustainable Building Services. Mae'r gwaith hwn yn rhan o'r Gwaith Cyfalaf Cynlluniedig, gydag ymrwymiad wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet i wario £2.5 miliwn.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I roi gwybod i'r Cabinet am y cynigion i barhau i wneud gwaith ar Rhydwen Drive, y Rhyl i leihau ansicrwydd tanwydd.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Dyfarnu'r contract yn uniongyrchol i'r contractwr sy'n ymgymryd â cham 1 y prosiect, yn seiliedig ar y cyfraddau cystadleuol a geir yn Fframwaith Ynni'r Cynghrair Caffael Cymreig fel y cytunwyd arnynt gan yr Adain Gaffael.

3.2. Bod y cyfnod galw i mewn 5 diwrnod sydd ei angen cyn gweithredu penderfyniad y Cabinet yn cael ei hepgor ar y sail bod y contract presennol yn dod i ben 30 Medi 2022 ac y bydd unrhyw oedi yn dyfarnu'r contract yn arwain at gostau ychwanegol ac oedi yn y rhaglen gan arwain at fethu dyddiadau cau sy'n amodi bod rhaid gwario grantiau erbyn dyddiadau penodol.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Fis Rhagfyr 2020 gwahoddodd Llywodraeth Cymru gynigion ar gyfer cylchoedd 1, 2.1 a 2.2 Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Mae Sir Ddinbych eisoes wedi sicrhau tua £5.8 miliwn o gylchoedd blaenorol ar gyfer gwaith craidd ac arloesol i'n cartrefi. Ni fydd y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yn seiliedig ar gynigion a wahoddwyd ond, yn hytrach, ar fformiwla stoc felly rydym ni'n siŵr o dderbyn cyllid eleni ar gyfer ein gwaith ynni craidd.

4.2. Ceisiwyd am gyllid cylch 2.1 ar gyfer 55 tŷ ar Rhydwen Drive/Close. Fodd bynnag nid oedd y cyllid hwn ar gyfer pob tŷ ar y stryd (oddeutu 100 i gyd). Felly rydym ni'n gofyn am gael bwrw ymlaen â'r Gwaith Ynni Cyfalaf Cynlluniedig ar gyfer y tai sy'n weddill (44 tŷ). Does arnom ni ddim eisiau gweld toriad yn y gwaith. Mae manteision bwrw ymlaen â'r cynllun hwn ddechrau fis Hydref yn cynnwys:

- Cadw 12 prentis lleol a gawsom ar gyfer Cam 1 ac estyn eu cyflogaeth 26 wythnos arall. Maen nhw'n cerdded i'r gwaith gan nad ydyn nhw'n gallu fforddio car. Mae 6 ohonynt ar gyrsiau toi sydd wedi'u teilwra yn arbennig i'w hanableddau
- Mae'r safle eisoes yn brysur a gallwn arbed costau drwy beidio â gorfod symud popeth oddi yno
- Mae'r gadwyn gyflenwi wedi dal gafael ar stoc er mwyn osgoi oedi o ran amser a chostau
- Mae ein contractwyr (ac eithrio'r rheiny sy'n gwneud y gwaith rendro) yn gwmnïau lleol
- Mae'r costau yn cael eu cadarnhau drwy fframwaith y Cynghrair Caffael Cymreig felly gallwn sicrhau gwerth am arian
- Gallwn gadw ansawdd y gwaith presennol

4.3. Mae'r gwelliannau wedi cynnwys paneli PV solar integredig, inswleiddio waliau allanol i wella insiwleiddio a gosod technoleg batris i harneisio ynni solar. Rydym ni hefyd wedi helpu busnesau lleol i wella eu sgiliau mewn gosodiadau technoleg werdd ac wedi recriwtio 12 prentis newydd a lleol.

4.4. Rydym ni wedi creu canllawiau ar ynni solar a Systemau Ynni Deallus i'n tenantiaid, ac wedi cynnal sesiynau galw heibio i bobl sydd eisiau mwy o wybodaeth am ddefnyddio paneli PV solar.

4.5. Mae ein Gwaith Cyfalaf Cynlluniedig wedi'i drefnu y tu allan i dymor nythu adar/ystlumod felly mae'n well cychwyn y gwaith yma fis Medi-Mawrth i helpu i osgoi oedi ac amhariadau i denantiaid.

4.6. Mae arnom ni angen trefnu graddfa a chyflymder y gwaith yma yng ngoleuni'r ansicrwydd tanwydd. Bydd y gwaith yn achosi cynnydd sylweddol o ran gwella ein data Tystysgrif Perfformiad Ynni. Mae mynegiannau cynnar o'n rhaglen Cam 1 yn cadarnhau ein bod wedi cynyddu'r cartrefi hynny o Dystysgrif Perfformiad Ynni D i Dystysgrif Perfformiad B drwy fabwysiadu technegau ôl-osod ac mae'r tenantiaid yn gweld lleihad yn eu biliau trydan. Fodd bynnag, mae angen darparu cyngor/addysgu tenantiaid am ynni i'w helpu nhw i fanteisio i'r eithaf ar y buddion hynny.

4.7. Mae Cam 1 y contract penodol yn dod i ben 30 Medi 2022. Mae angen penderfyniad cyn gynted â phosibl ar gyfer y cais i hepgor cyfnod galw i mewn 5 diwrnod cyn gweithredu penderfyniad y Cabinet a sicrhau bod gan y contractwr, is-gontractwyr a chadwyni cyflenwi ddiogelwch o ran contract parhaus ac nad ydynt yn addo adnoddau i brosiectau eraill, gan arwain at gynnydd mewn cost ac ymestyn y rhaglen.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. **Tai:** Mae'r Tystysgrifau Perfformiad Ynni'r tai hyn yn gymysgedd o rhai D ac C, er nad rhain yw'r gwaethaf yn ein stoc tai, mae'r ardal yn gartref i rai o denantiaid mwyaf diamddiffyn Sir Ddinbych. Bydd y gwaith yma'n helpu tenantiaid i leihau biliau trydan a gwresogi tra bod y tariffau yn uchel. Targed Sir Ddinbych yw sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni A, felly bydd y cynllun hwn yn helpu i roi trigolion ar y trywydd cywir i gyrraedd y targed.

5.2. **Clymu Cymunedau:** Bydd y cynllun hwn yn helpu i greu cymuned wydn a chysylltiedig, gan y byddant yn rheoli rhywfaint ar eu defnydd o drydan. Mae gennym ni nifer o denantiaid (cam 1) sydd wedi mynegi diddordeb bod yn rhan o fforwm tenantiaid anffurfiol er mwyn ein helpu ni i sicrhau bod ein tai yn aros yn effeithlon. Rydym ni'n gobeithio parhau â hyn yn yr ail gam.

5.3. **Mynd i'r afael ag Amddifadedd:** Mae trigolion yr ardal hon dan anfantais oherwydd lefelau uchel o ddiweithdra ac ati. Fodd bynnag, daeth rhai tenantiaid a

thrigolion lleol eraill atom yn gofyn am waith – rydym ni wedi helpu 7 i gymryd rhan mewn rhaglen brentisiaeth ac mae 5 yn gweithio i isgontractwyr ar y safle ar hyn o bryd (mae'r rhaglen ôl-osod yn ariannu'r elfen hon). Crëwyd 12 prentisiaeth. Mae arnom ni eisiau cadw'r prentisiaid hyn ac mae dyfarnu'r contract i'r un cwmni yn mynd i helpu'r unigolion hynny gadw eu cyflogaeth.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd y cynllun yn costio oddeutu £1.672 miliwn.

6.2. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu £650,000 (oddeutu £15,000 i wella effeithlonrwydd ynni 44 o eiddo).

6.3. Yn ychwanegol at ddarpariaeth Llywodraeth Cymru, bydd Cyfrif Refeniw Tai CSDd yn cwrdd ag oddeutu £1.022 miliwn o'r gwaith gwella cyfalaf i'r stoc tai cymdeithasol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Prif gasgliadau: Lleihau carbon yn y stoc dai, cynnydd mewn cyfleoedd gwaith, cynnydd mewn cyfleoedd hyfforddi, buddiannau i fusnesau bach a chanolig a'r gadwyn gyflenwi leol, datblygu sgiliau, ymgysylltu â thenantiaid, ac ymgysylltu â'r gymuned.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae angen eglur a gofyniad i sicrhau bod stoc tai'r cyngor yn cael ei chynnal a'i chadw i safon uchel ac er nad ystyriwyd ymgynghoriad craffu ar hyn o bryd, mae cryn drafodaethau wedi digwydd gyda Llywodraeth Cymru a thenantiaid ynglŷn â'n rhaglen waith arfaethedig. Ymgynghorwyd â'r cynghorwyr perthnasol cyn dechrau'r gwaith gwella ac mae gwybodaeth ystadegol yn cael ei rhannu'n gorfforaethol ac i Lywodraeth Cymru'n rheolaidd.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r gwaith hwn yn rhan o'r Gwaith Cyfalaf Cynlluniedig, gydag ymrwymiad wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet i wario £2.5 miliwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Rydym ni mewn perygl o golli'r buddion hyn os ydym ni'n oedi cyn dechrau'r gwaith ar y safle hwn.

10.2. Mae Fframwaith Ynni'r Cynghrair Caffael Cymreig yn hwyluso dyfarnu contractau yn uniongyrchol yn seiliedig ar gyfraddau cystadleuol.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972.